**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**26 Ionawr 2024**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad ynghylch Bargen Twf Canolbarth Cymru |
| AWDUR: | Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau – Bargen Twf Canolbarth Cymru |

## 1 Diben yr adroddiad

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r canlynol:

- trosolwg cryno o gynnydd ac o'r camau nesaf yng nghyswllt Bargen Twf Canolbarth Cymru

## 2 Penderfyniad(au) a geisir

2.1 Ystyried y diweddariad ynghylch cynnydd a nodi unrhyw faterion/pryderon allweddol.

## 3 Cyflawni

3.1 Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae gwaith y tîm wedi bod yn canolbwyntio ar ddiweddaru'r Fframwaith Arfarnu Achosion Busnes Amlinellol yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Cyfaill Beirniadol, ac yna cynnal arfarniadau, archwilio prosesau llywodraethu megis opsiynau'n ymwneud ag awdurdod dirprwyedig a phrotocol rheoli newid, a sicrhau bod cysondeb ar draws Rhaglenni a Phrosiectau a bod yna ddull gweithredu cyffredinol ar gyfer y Portffolio.

3.2 **Y Rhaglen Ddigidol** – mae Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Cysylltedd Dyfeisiau Symudol / 4G wedi'i ddrafftio a'i gyflwyno i Fwrdd y Rhaglen, a chynhaliwyd gweithdy a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar yr achos Economaidd a'r Asesiad Opsiynau. Disgwylir y bydd drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'w arfarnu ym mis Ionawr.

3.3 **Y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo** – yn dilyn cymeradwyo Achos Busnes y Rhaglen, parheir i wneud gwaith ar symud yn eu blaen y ddau brosiect mwyaf blaenllaw a gynigir. Mae strategaeth farchnata'n cael ei datblygu yn ogystal â chynigion ynghylch y posibilrwydd o sefydlu Cronfa Ymyrraeth Leol.

3.4 **Prosiectau** – hyd yma, o'r 9 prosiect annibynnol, mae pob prosiect a gyrhaeddodd y rhestr fer wedi cyflwyno Achosion Amlinellol Strategol ac mae

dau Achos Busnes Amlinellol wedi'u cyflwyno. Bu oedi o ran cyflwyno rhai Achosion Busnes Amlinellol, a chytunwyd ar ddyddiadau cyflwyno newydd sy'n ymestyn i ddechrau 2024.

3.5 Cynhaliwyd gweminar gyda Noddwyr Prosiectau ym mis Tachwedd dan arweiniad Gemma Delafield, Swyddog Ynni Rhanbarthol. Cyflwynodd ddull Bargen Twf Canolbarth Cymru o ystyried sero net ac adfer byd natur yn rhan o'r cynigion ynghylch prosiectau, ac anogodd Noddwyr Prosiectau i ymgorffori manteision bioamrywiaeth a gwaith lleihau carbon yn eu hachosion busnes.

3.6 Cafodd gweminar arall ei chynnal ar 12 Rhagfyr dan arweiniad David Price, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Trafododd ystyriaethau ynghylch sgiliau wrth ddatblygu achosion busnes, megis y swyddi a gaiff eu creu/eu diogelu, hyfforddiant, prentisiaethau a lleoliadau gwaith.

3.7 Canolfan y Dechnoleg Amgen – bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r newyddion diweddar am Ganolfan y Dechnoleg Amgen, sef iddi gyhoeddi y bydd ei chanolfan i ymwelwyr dydd yn cau oherwydd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr ac oherwydd costau sy'n cynyddu. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Chanolfan y Dechnoleg Amgen ac mae 'archwiliad iechyd' wedi'i gynnal.

3.8 Achos Busnes Portffolio Strategol (Adnewyddu Blynyddol - 2024) - Hatch Ltd yn cefnogi trydydd adnewyddiad blynyddol (V3) y SPBC a fydd yn dechrau ym mis Ionawr, gyda'r bwriad o gael dogfen derfynol erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

## 4 Llywodraethu

4.1 Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd, mae Bwrdd Rhaglen ffurfiol wedi'i sefydlu ar gyfer y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo. Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion yw Uwch-berchennog Cyfrifol y Rhaglen a Neil Clutton, Arweinydd Proffesiynol – Eiddo Strategol, Cyngor Sir Powys yw Dirprwy Uwch-berchennog Cyfrifol y Rhaglen.

4.2 Wedi i Nigel Brinn adael Cyngor Sir Powys ddiwedd mis Hydref, cafodd Diane Reynolds ei phenodi'n Gyfarwyddwr Dros Dro yr Economi a Gwasanaethau Cymunedol, sy'n cynnwys ymgymryd â rôl y Cyd-uwch-berchennog Cyfrifol ochr yn ochr â Barry Rees.

4.3 Mae Jonathon Evans, Uwch-reolwr Gweithrediadau Digidol, Cyngor Sir Powys, wedi ymgymryd â rôl Uwch-berchennog Cyfrifol y Rhaglen Ddigidol, ac Alan Morris, Cyngor Sir Ceredigion yw Dirprwy Uwch-berchennog Cyfrifol y Rhaglen.

4.4 Mae hyfforddiant yn cael ei drefnu gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer SROs presennol a newydd i ddarparu arweiniad pellach ar rolau a chyfrifoldebau.

## 5 Sicrwydd

5.1 **Adolygiad Sicrwydd y Portffolio** – mae cynlluniau ar y gweill i Adolygiad Sicrwydd nesaf y Portffolio ddigwydd ym mis Mai 2024 pan fydd yr Achos Busnes Portffolio Strategol wedi'i ddiweddaru – mae hynny'n rhan o'r broses

flynyddol ar gyfer cymeradwyo cyllid.

5.2 **Adolygiad Cyfaill Beirniadol** – mae argymhellion yr Adolygiad Cyfaill Beirniadol ynghylch y broses o arfarnu Achosion Busnes Amlinellol wedi'u hystyried, Roeddent yn cynnwys dadansoddiad o sgiliau'r tîm adolygu a threfniadau i gael cadeirydd annibynnol ar gyfer y cyfarfodydd safoni. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i gwblhau. Mae'r adroddiad bellach yn cael ei ystyried yn gyflawn a bydd ar gau ar ein ffeiliau – gweler Atodiad 2.

5.3 **Sicrwydd o ran Prosiectau** – mae adolygiadau sicrwydd yn cael eu cynllunio ar gyfer prosiectau sydd wedi cyrraedd cam yr Achos Busnes Amlinellol, felly mae rhagor o wybodaeth am hynny wedi'i darparu i'r holl Noddwyr Prosiectau.

**5.4** Mae cyfarfod asesu cychwynnol gyda Hwb Sicrwydd LlC wedi cael ei gynnal ar gyfer prosiect Llynnoedd Cwm Elan gyda dyddiadau wedi'u gosod ar gyfer yr adolygiad sicrwydd ym mis Chwefror 2024.

## 6 Adnoddau

6.1 Ymunodd Peter Jones â Thîm Tyfu Canolbarth Cymru ar 4 Rhagfyr fel Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad y Fargen Twf. Bydd Peter yn gyfrifol am drafod â Noddwyr Prosiectau faterion sy'n ymwneud â datblygu achosion busnes, a bydd yn darparu cymorth ac yn monitro cynnydd. O'r herwydd, bydd yn ymweld â phob prosiect dros y misoedd nesaf. Bydd Peter hefyd yn datblygu prosesau monitro ar gyfer y Portffolio, sy'n ymwneud â materion megis gwireddu manteision.

6.2 At hynny, ymunodd Amy Waters â'r tîm ar 12 Ionawr fel Uwch-swyddog Cymorth Gwasanaeth, a bydd yn darparu cymorth gweinyddol dridiau'r wythnos.

## 7 Risg

7.1 Mae'r Gofrestr Risg a Materion wedi'i diweddaru ac mae mwy o risgiau wedi'u hychwanegu er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac argymhellion Adolygiad Sicrwydd y Portffolio. Dyma'r prif risgiau presennol:

- Adnoddau Swyddfa Rheoli'r Portffolio: Roedd Adolygiad Sicrwydd y Portffolio yn argymell cynyddu capasiti'r Swyddfa – ymunodd dau aelod newydd ym mis Rhagfyr a mis Ionawr.
- Costau adeiladu'n codi / problemau'n ymwneud â chadwynau cyflenwi / costau oherwydd chwyddiant: maent yn parhau'n broblem, yn enwedig i Noddwyr Prosiectau.
- Buddsoddi gan y sector preifat: mae'n dal yn ystyriaeth allweddol i Lywodraethau, a rhoddir pwys ar weld strategaeth ar waith.
- Mae sgyrsiau diweddar gyda CAT wedi tynnu sylw at faterion posibl sy'n wynebu noddwyr prosiect o ran dod o hyd i gyllid ar gyfer costau datblygu - mae trafodaethau'n parhau gyda Chyllid.

## 8 Monitro a gwerthuso

8.1 Mae fframwaith monitro a gwerthuso'n cael ei ddatblygu ar gyfer y Fargen Twf wrth i'r Fargen Twf symud yn ei blaen.

## 9 Gwireddu manteision

9.1 Wrth i Brosiectau symud ymlaen i gam yr Achos Busnes Amlinellol, bydd manylion am y manteision a gynigir yn cael eu hystyried ymhellach a bydd hynny'n llywio'r modd y caiff y Cynllun ei ddatblygu.

9.2 Bydd y Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad, sydd newydd gael ei benodi, yn ymgymryd â'r gwaith hwn.

## 10 Diweddariad ynghylch gwaith cyfathrebu

**06.10.23**
Cyfweliad ar Business News Wales lle bu'r ddau Arweinydd yn sôn am y cyllid sydd wedi'i ryddhau i'r rhanbarth gan y Llywodraeth ac am effaith bosibl y Fargen Twf.
**'Investment Secured for Mid Wales Growth Deal'**

**02.11.23**
Erthygl am y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo yn y rhifyn diweddaraf o Commercial Property Monthly, tudalennau 4-5:
**'Exciting Development Opportunities in Mid Wales'**

**09.11.23**
Cyhoeddodd Business News Wales gyfweliadau'r Arweinwyr am ddatblygu'r Rhaglen Safleoedd ac Eiddo:
**Rhaglen Safleoedd ac Eiddo ar Fin Symud Ymlaen ar ôl cael golau gwyrdd o Fwrdd Canolbarth Cymru**
**Sites and Premises Programme Set to Progress After Green Light from Growing Mid Wales Board**

**14.11.23**
Datganiad i'r wasg Tyfu Canolbarth Cymru yn dilyn cyfarfod rhwng y Gweinidogion a'r Arweinwyr:
**Bargen Twf Canolbarth Cymru yn agosáu at gyrraedd y nod yn 2024**

## 11 Y camau nesaf

11.1 Isod ceir trosolwg o'r camau nesaf:

| | |
|---|---|
| **Rhagfyr 2023** | Cyflwyno ail adroddiad chwarterol y Fargen Twf i Lywodraeth Cymru |
| **O fis Ionawr 2024 ymlaen** | Cydweithio'n agosach â noddwyr prosiectau a monitro'r gwaith o ddatblygu achosion busnes.<br>Cyflwyno Achosion Busnes prosiectau i'w hasesu (2 Achos Busnes Amlinellol, 1 Achos Amlinellol |

| | |
|---|---|
| | Strategol) |
| **O fis Ionawr ymlaen** | Cychwyn diweddaru'r Achos Busnes Portffolio Strategol |
| **Ionawr** | Y Campws Gweithgynhyrchu Uwch – gweithdy gyda noddwr y prosiect ynghylch yr Achos Amlinellol Strategol |
| **Ionawr/Chwefror** | Achos Busnes Amlinellol Llynnoedd Cwm Elan – adolygu gwybodaeth ychwanegol |
| **Chwefror** | Adolygiadau Sicrwydd Prosiectau: Llynnoedd Cwm Elan a Cynefin |
| **Mawrth** | Bwrdd Cyflawni'r Portffolio – cael asesiadau ynghylch yr Achosion Amlinellol Strategol/Achosion Busnes Amlinellol |
| **Mawrth** | Llunio fersiwn terfynol o'r Achos Busnes Portffolio Strategol sydd wedi'i ddiweddaru |
| **Ebrill** | Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru – cael argymhellion i'w hystyried ynghylch yr Achosion Busnes |
| **Mai** | Adolygiad Sicrwydd y Portffolio |

## 12 Goblygiadau cyfreithiol

12.1 Dim.

## 13 Goblygiadau o ran adnoddau dynol

**13.1** Dim.

## 14 Goblygiadau ariannol

14.1 Dim.

## 15 Atodiadau

- Atodiad 1:Trosolwg o'r Portffolio
- Atodiad 2: Adolygiad Cyfaill Beirniadol – Cynllun Gweithredu
- Atodiad 3: Cofrestr Risg a Materion y Portffolio